CYNGOR BRO MORGANNWG

DISGRIFIAD SWYDD

RÔL/TEITL Y SWYDD	**:**	Cynorthwyydd Arlwyo
RHIF Y SWYDD	**:**	All Post References
LLEOLIAD	**:**	All Locations
GRADDFA'R SWYDD	**:**	1
YN ATEBOL I	**:**	Rheolwr Cegin
YN GYFRIFOL AM	**:**	
YN CYSYLLTU Â	**:**	
PRIF DDIBEN Y SWYDD	**:**	Cyflawni dyletswyddau o dan Rheolwr Ardal/ Rheolwr Cegin

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

- Helpu'r staff i ddarparu bwyd maethlon, twym yn unol â Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Cyffredinol) 1995 a phob gofyn cyfreithiol arall sy'n ymwneud â hylendid bwyd.
- Cyflawni eich dyletswyddau cegin yn llwyr o dan gyfarwyddyd. Rheolwr Cegin
- Helpu i redeg y gegin yn unol â'r Llawlyfr Safonau Arlwyo.

- Gweithredu'r system gyfrifiadurol heb arian yn ôl y gofyn wrth arlwyo prydau (os yw hynny'n berthnasol).

- Cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch a Hylendid.

- Mynnu cydymffurfio â pholisïau Big Fresh Catering Company

- Gofalu am y peiriannau gwerthu ar y safle fel y bo'r galw (os yw hynny'n berthnasol).

- Deall anghenion cwsmeriaid a sicrhau bod y gwasanaeth gofal cwsmeriaid bob amser o safon uchel.

- Cymryd rhan yn y cynllun hyfforddi parhaol.

- Cyflawni dyletswyddau'r Cogydd Cynorthwyol yn ôl y gofyn (a bwrw eich bod wedi'ch hyfforddi'n briodol) a/neu unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r tîm rheoli am i chi eu cyflawni.

- Helpu i lanhau'r Uned.

- Mynychu cyfarfodydd a chyrsiau hyfforddi angenrheidiol o bryd i'w gilydd.

- Helpu mewn mannau eraill yn ôl yr angen yn ystod y gwyliau, pan fydd rhywun yn sâl ac yn ystod argyfwng.

- Helpu mewn digwyddiadau arbennig y tu mewn a'r tu allan i oriau gwaith arferol.

- **Sicrhau bod Rheoliadau Ariannol, Rheolau Sefydlog, Polisïau a Dulliau Gweithredu'r Cyngor yn cael eu dilyn.**

- **Dilyn egwyddorion Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.**

- **Cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch / pholisïau a dulliau gweithredu perthnasol y Cyngor. Bod yn gyfrifol o fewn rheswm am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch unrhyw rai y gallai eich gweithredu neu'ch diffyg gweithredu effeithio'n andwyol arnynt.**

- **Dilyn egwyddorion polisi amgylcheddol y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.**

- **Rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch i'r swyddog diogelwch priodol.**

- **Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y mae'n rhesymol i'r Prif Swyddog ofyn i chi eu cyflawni o bryd i'w gilydd, sy'n gweddu i raddfa a chymeriad cyffredinol y swydd.**

LLOFNOD: **DYDDIAD:**
(Cyfarwyddwr/Prif Swyddog)

LLOFNOD: **DYDDIAD:**
(Deiliad y Swydd)